## ATODLEN 2

Rheoliad 5

### CINIO MEWN YSGOLION MEITHRIN A GYNHELIR

**1.** Ar bob diwrnod ysgol rhaid i fwyd o bob un o'r categorïau bwyd yn Nhabl B fod yn rhan o'r cinio ysgol a ddarperir mewn ysgolion meithrin a gynhelir.

**2.** Rhaid i laeth a ddarperir i ddisgyblion mewn ysgolion meithrin a gynhelir neu i bersonau ar fangreoedd ysgolion meithrin a gynhelir gydymffurfio â'r gofynion yn Atodlen 5.

**Tabl B**

| Categori Bwyd | Bwydydd sydd wedi eu cynnwys yn y categori |
|---|---|
| Ffrwythau a llysiau | Ffrwythau a llysiau ar bob ffurf p'un ai'n rhai ffres, wedi eu rhewi, wedi eu sychu neu ar ffurf sudd ond gan eithrio ffrwythau tun mewn surop. |
| Cig, pysgod a ffynonellau protein eraill nad ydynt yn gynhyrchion llaeth. | Cig a physgod ar bob ffurf p'un ai'n rhai ffres, wedi eu rhewi, mewn tuniau neu wedi eu sychu gan gynnwys cynhyrchion cig neu bysgod, wyau, cnau, corbys a ffa, ac eithrio ffa gwyrdd. |
| Bwydydd startslyd | Bara, siapatis, pasta, nwdls, reis, tatws, tatws melys, iamau, miled, a blawd india corn. |
| Bwydydd llaeth a llaeth | Llaeth, iogwrt (gan gynnwys iogwrt wedi ei rewi ac iogwrt i'w yfed), fromage frais, cwstard a chaws, ond gan eithrio menyn a hufen. |